

Meaningful Chocolate

(Cyfieithwyd gan www.beibl.net)

Y Pasg: Adnoddau 2017

Wyt ti'n 'nabod yr wyneb?

Hanes y Pasg:

Y ffordd i Emaus

CA1-2

Nodiadau

Bwriad: I adrodd hanes y Pasg, wrth ganolbwyntio ar Luc 24:13-33, sef 'Ar y ffordd i Emaus'.

I ddeall sut dŷn ni'n 'nabod ein gilydd.

Nodiadau:

1. Adrodd hanes y Pasg drwy ddefnyddio darluniau gan Alida Massari o lyfryn Pasg y 'Meaningful Chocolate Company'. Mae'r llyfryn yn cynnwys hanes y daith i Emaus.
2. Deall sut mae adar, anifeiliaid a phobl yn adnabod ei gilydd.
3. Ystyried pam nad oedd ffrindiau Iesu yn ei 'nabod.

Adnoddau:

Nodiadau a chyflwyniad PowerPoint

Adnoddau ychwanegol:

- Wy Pasg (heb ei lapio, ar hambwrdd neu blât)
- Rhywun i arwain y gwasanaeth
- Rhywun i helpu
- Gwirfoddolwr sydd wedi cael gwiriad DBS *

** Rhywun mae'r plant wedi ei weld ac yn ei 'nabod, ond sydd ddim fel arfer yn rhan o'r gwasanaethau boreol e.e. y gofalwr, aelod o staff y gegin ayb. Dylid gofyn i'r person wisgo dillad gwahanol i'r hyn mae o/hi'n gwisgo fel arfer wrth eu gwaith e.e. y person lolipop heb ei got fawr lachar a'i het!*

Daw'r lluniau gan Alida Massari o lyfryn Pasg 2017 y Meaningful Chocolate Company. Daw'r lluniau ychwanegol o www.freeimages.com – Little Sparrow - Hajnalka Ardai; Mrs, Dog Peeing - Farquois; Eyes - Helmut Gevert: darnau o wy Pasg gan Ryan Smart



Sleid 1 (Mae'r sleidiau yn Gymraeg ar y Ppt)



Cyflwyniad

Mae'r Pasg yn agosáu. Dw i'n sicr mai dyma dych chi'n feddwl amdano pan dych chi'n meddwl am y Pasg (dangos yr wy Pasg mawr ar hambwrdd)! Byddwch yn onest! Ond, mewn gwirionedd cofio am yr wythnos olaf ym mywyd Iesu ydyn ni yn ystod y Pasg. Mae'r Pasg yn amser i gofio am ei farwolaeth a'i atgyfodiad (sef y ffaith iddo ddod yn ôl yn fyw).




Beth am wrando ar hanes yr wythnos olaf ym mywyd Iesu? 2000 o flynyddoedd yn ôl, daeth Iesu a neges o obaith a chariad i'r byd. Roedd o'n athro arbennig ac fe ddewisodd llawer o bobl ei ddilyn. Roedd llawer yn credu y byddai Iesu'n frenin ar yr holl fyd.



Dyma be' ddigwyddodd yn ystod wythnos olaf ei fywyd: aeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn. Roedd y bobl yn dathlu ac yn chwifio dail palmwydd i'w gyfarch. Ond, doedd pawb ddim yn dathlu. Roedd rhai pobl eisiau cael gwared ar Iesu.




Yn nes ymlaen yn ystod yr wythnos cafodd Iesu a'i ffrindiau arbennig (y disgyblion) swper olaf gyda'i gilydd. Cyn bwyta fe olchodd Iesu draed ei ffrindiau er mwyn eu dysgu nhw i wasanaethu a helpu eraill.



Yn ystod y swper cymerodd Iesu gwpan o win, adrodd gweddi o ddiolch, ac yna dweud wrth ei ddisgyblion, "Cymerwch hwn a'i rannu rhyngoch". Yna cymerodd dorth o fara, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. "Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i." Yn ystod y swper sleifiodd dyn o'r enw Jwdas allan o'r ystafell. Roedd o'n mynd i fradychu Iesu.




Ar ôl bwyta aeth Iesu a'i ffrindiau (y disgyblion) i ardd Gethsemane. Yno arestwyd Iesu, gan fod Jwdas wedi ei fradychu a dweud wrth ei elynion ble i ddod o hyd iddo.



Ar y dydd Gwener, roedd rhaid i Iesu sefyll ei brawf o flaen Peilat y llywodraethwr/arweinydd Rhufeinig. Penderfynodd Peilat gadw gelynydd Iesu'n hapus wrth drefnu iddo gael ei groeshoelio. Gwisgodd y milwyr Iesu mewn clogyn ysgarlad, ac fe roddon nhw goron ddrain am ei ben.



Gorfodwyd Iesu i gario ei groes drwy strydoedd Jerwsalem.



Croeshoeliwyd Iesu yn y canol rhwng dau leidr. Pan fu Iesu farw bu daeargryn mawr, ac aeth y ddaear i gyd yn dywyll. Roedd Mair, mam Iesu, yn drist iawn, iawn.



Ar ôl i Iesu farw dyma un o'i ffrindiau'n cymryd ei gorff a'i lapio mewn lliain glân. Yna fe'i rhoddodd i orwedd mewn bedd, un wedi'i naddu yn y graig. Wedyn, ar ôl rhoio carreg drom dros geg y bedd, aeth i ffwrdd.



Yn gynnar iawn fore Sul aeth rhai gwragedd at y bedd. Dyma nhw'n darganfod fod y garreg fawr oedd ar geg y bedd wedi'i rhoio i ffwrdd, a phan aethon nhw i mewn i'r bedd doedd y corff ddim yno! Yna'n sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad llachar yn sefyll wrth eu hymyl. Dyma'r dynion yn gofyn iddyn nhw, "Pam dych chi'n edrych mewn bedd am rywun sy'n fyw? Dydy Iesu ddim yma; mae yn ôl yn fyw!"



I ni mae hyn yn swnio'n amhosibl, ond mae'r Beibl yn dweud nad oes dim byd yn amhosibl gyda Duw.

Be ddigwyddodd nesa' tybed? Wel...fe ymddangosodd Iesu i rai o'i ffrindiau, ac wedyn i fwy ohonyn nhw. Mae'r Beibl yn dweud bod 500 o bobl ei weld e ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw. (1 Corintiaid 15:6)

Dyma hanes dau ddyn a welodd Iesu ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw. Mae'r hanes yn y Beibl. Roedden nhw'n cerdded ar y ffordd o Jerwsalem i Emaus. Roedd y ddau ddyn yn drist iawn bod eu ffrind, Iesu, wedi marw. Roedden nhw wedi clywed stori gan rai merched bod bedd Iesu'n wag a'i fod e' wedi dod yn ôl yn fyw! Doedden nhw ddim yn gwybod be' i'w feddwl na'i gredu!

Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen dyma rhyw ddyn yn dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. Gofynnodd y dyn iddyn nhw, "Am beth dych chi'n dadlau gyda'ch gilydd?" Atebodd un o'r dynion, "Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sy' ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau dwetha yma!" Doedden nhw ddim yn gallu credu nad oedd y dyn wedi clywed yr hanes am farwolaeth Iesu.

Pwy dych chi'n meddwl oedd y dyn a ddechreuodd gerdded gyda nhw?

Iesu? Os nad Iesu yna pwy arall? Pam doedden nhw ddim yn ei 'nabod? Be dych chi'n feddwl?

Ydych chi'n meddwl mai tric oedd e? Be' sy'n debygol o fod wedi digwydd? Fe edrychwn ni i weld be sy' gan wyddoniaeth i'w ddweud am 'nabod eraill.



Yr arbrawf

Sut ydyn ni'n 'nabod ein gilydd?



Mae adar yn 'nabod cân/trydar ei gilydd.



Mae llawer o anifeiliaid yn 'nabod arogl ei gilydd!



Sut dŷn ni'n 'nabod ein gilydd?

Rydyn ni am wneud arbrawf. Rydw i'n mynd i wahodd rhywun i mewn i'r ystafell/neuadd/dosbarth (eich gwirfoddolwr). Rydw i eisiau i chi ddyfalu pwy ydyn nhw a dweud ym mhle dych chi'n ei weld o neu hi, fel arfer.

Ydy'r plant yn 'nabod y person? Pa mor gyflym mae'r plant yn ei 'nabod? Dyma'r ymchwil: <https://www.sciencedaily.com/releases/2013/11/131113080123.htm>

Pwy sy'n 'nabod y person? Oedd e'n anodd? *Cyflwynwch y person i'r plant.* Ydych chi wedi clywed am 'facial recognition'? Dyma'r ffordd mae cyfrifiaduron yn adnabod wynebau pobl - drwy ddefnyddio Mathemateg mewn rhaglen gyfrifiadurol. Ond, mae ein hymennydd ni (ein brêns ni!) yn gweithio'n wahanol iawn. Rydyn ni'n

edrych nid dim ond ar wyneb person ond ar bopeth arall hefyd - yr hyn maen nhw'n gwisgo ac rydyn ni'n meddwl am y lle dŷn ni'n arfer eu gweld nhw. Mae lleoliad person - lle dŷn ni'n arfer eu gweld nhw - yn helpu ni i 'nabod person. Weithiau pan dŷn ni'n gweld person dŷn ni'n 'nabod mewn lle gwahanol (e.e. gweld un o'r plant mewn siop/gweld athro ar lan y môr yn lle yn y dosbarth) mae'n gallu bod yn anodd cofio eu henw, h.y. mae'n anoddach i'w 'nabod.



Awn yn ôl i'r hanes am y dynion yn cerdded i Emaus. Roedden nhw'n cerdded gyda dyn dieithr! Doedden nhw ddim yn ei 'nabod. Roedd y dyn yn eu dysgu nhw yn union fel roedd Iesu'n arfer gwneud. Tybed os oedden nhw'n amau pwy oedd yno?

Pan oedden nhw wedi cyrraedd pen y daith, dyma nhw'n gofyn i'r dyn, "Tyrd i aros gyda ni dros nos; mae'n mynd yn hwyr." Felly aeth y dyn i aros gyda nhw. Pan oedden nhw'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu iddyn nhw. **(Torri'r wy Pasg yn ddarnau)**

Yn sydyn dyma nhw'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda nhw, a'r foment honno diflannodd o'u golwg. Am fod Iesu wedi gwneud yr hyn roedd e'n arfer ei wneud roedden nhw wedi ei 'nabod.

Dychmygwch ddeffro/ddihuno yn edrych yn wahanol, neu'n swnio'n wahanol. Tybed fyddai pobl yn eich 'nabod chi? Tybed sut fyddai pobl yn eich 'nabod? Fydden nhw'n eich 'nabod chi oherwydd be dych chi'n wneud? Oherwydd eich arferion (eich habits?) Y ffordd dych chi'n trin eraill? Be dych chi'n feddwl? Sut fyddai pobl yn eich 'nabod chi?

Beth am yr holl bobl yn y byd sy' ddim wedi eich cyfarfod chi? Tybed be fydden nhw'n feddwl ohonoch chi? Fydden nhw'n dod i 'nabod rhywun sy'n garedig ac yn llawn cariad? Fydden nhw'n dod i 'nabod rhywun gonest? Fydden nhw'n dod i 'nabod rhywun cyfeillgar?

Mae'n bwysig cofio bod y ffordd dŷn ni'n ymddwyn yn dweud llawer amdanon ni. O'r hyn dŷn ni'n wneud mae pobl yn gallu 'nabod mwy na'n wynebaw ni, maen nhw'n dod i 'nabod ein cymeriad ni – sut fath o bobl ydyn ni go iawn, tu fewn yn ein calonnau.

Yn yr Ysgol hon rydyn ni'n trio eich dysgu chi mai cymeriad sy'n bwysig. Rydyn ni eisiau i chi ymdrechu i fod y person gorau rydych chi'n gallu bod. Mae'r ffordd dŷn ni'n edrych yn gallu newid, ond mae'r ffordd dŷn ni'n bihafio/ yn ymddwyn tuag at eraill, a'r geiriau rydyn ni'n ddweud yn aros drwy ein bywydau e.e. Oes yna rywun bob amser yn helpu i dacluso'r dosbarth? Felly mae'r person yn cael ei 'nabod fel rhywun cymwynasgar, caredig ayb. Mae'r hyn dŷn ni'n wneud a'i ddweud yn fwy pwysig na'r ffordd dŷn ni'n edrych. Yn aml mae pobl yn gwybod pwy ydyn ni o'r hyn dŷn ni'n ei wneud.

Cyfle i feddwl



Un o'r ffyrdd mae pobl yn gwybod ein bod ni'n dathlu'r Pasg ydy wrth i ni roi wyau i'n gilydd. Pam wyau? Maen nhw'n atgoffa rhai pobl o fywyd newydd – dechrau newydd. I eraill mae'r wy yn symbol o obaith gan fod yr wy yn eu hatgoffa o'r garreg wedi ei rholio i ffwrdd o geg y bedd.

Yn yr hen ddyddiau doedd pobl ddim yn bwyta wyau a chig yn ystod cyfnod y Grawys (sef y 40 diwrnod cyn y Pasg), felly mae bwyta wy Pasg yn ffordd wych o ddathlu diwedd y Grawys. Ond mae'n bwysig cofio wrth dderbyn a rhoi wyau Pasg, fod yna hanes arbennig iawn tu ôl i'r wyau siocled!

Atgyfododd Iesu – daeth yn ôl yn fyw – ac wrth farw ar y groes ac atgyfodi mae'r Beibl yn dysgu fod Iesu wedi rhoi cyfle i ni 'nabod Duw. Trwy fywyd a gwaith Iesu ar y ddaear rydyn ni'n gallu 'nabod cymeriad Duw. Ar draws y byd mae miliynau o bobl yn dilyn Iesu ac yn credu ynddo. Maen nhw'n trio dilyn ei esiampl wrth garu eraill a charu'r byd naturiol o'n cwmpas. Dyma bethau da iawn i ni feddwl amdany'n nhw yn ystod cyfnod y Pasg.

Gweddi

Ein Tad,

Helpa ni i dy 'nabod Di mewn ffordd newydd, drwy Iesu Grist dy fab.

Helpa ni i ddeall gwir ystyr y Pasg a pham fod Iesu wedi marw ar y groes ac atgyfodi. Helpa ni i adnabod ein hunain yn well, ac i geisio nabod Iesu a dilyn ei esiampl.

Nertha ni i ddilyn Iesu ac i ddilyn ei esiampl wrth geisio newid y byd er gwell.

Amen

Beth am rannu'r siocled gyda'r plant!